



# FFURFLEN DDIWYGIO AR GYFER DERBYN I DDARPARIAETH CYN YSGOL

## Cyngor Sir Powys

Darpariaeth bresennol cyn ysgol y disgybl neu'r ddarpariaeth y bydd yn mynd iddo.

### MANYLION Y DISGYBL

Enw llawn cyfreithiol y disgybl

Dyddiad geni      D/M/B.....

Newidiadau i fanylion cyswllt, os yw'n berthnasol

Enw: .....

Cyfeiriad .....

.....

.....

Cod Post: .....

Rhif ffôn cartref: .....

Rhif ffôn gwaith: .....

Rhif ffôn symudol: .....

E-bost: .....

Perthynas â'r disgybl: .....

Rwy'n cadarnhau mai fi sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn ac wedi cael caniatâd pawb arall sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn i wneud y cais hwn. Ticiwch i gadarnhau'r datganiad hwn

Cais i ddiwygio'r sesiynau / lleoliad cyn ysgol:

### Hysbysiad Preifatrwydd

1. Wrth roi eich gwybodaeth bersonol i'r Awdurdod, rydych yn cydnabod mai Cyngor Sir Powys yw'r rheolydd data ar gyfer y wybodaeth bersonol a rowch ar y ffurflen hon (at ddibenion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA));
2. Dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae'n rhaid i Gyngor Sir Powys roi gwybod i chi beth mae'r Awdurdod yn ei wneud gyda'r data personol sy'n cael ei gasglu ar y ffurflen hon. Mae Cyngor Sir Powys yn casglu'r wybodaeth i brosesu eich cais er mwyn dyrannu lle mewn ysgol. Bydd yn cael ei rannu gyda'r rhai sydd angen gwybod, megis cyfarwyddiaethau eraill o fewn yr Awdurdod, ysgolion, awdurdodau lleol eraill a byrddau iechyd lleol;
3. Fel y rheolydd data, dan y GDPR, mae'n rhaid i'r cyngor roi gwybod i chi pa rai o amodau prosesu data Erthygl 6 y GDPR y mae'n dibynnu arnynt i brosesu eich data personol yn gyfreithlon. O ganlyniad, mewn perthynas â'r data roddoch chi ar y ffurflen hon, rydym yn dibynnu ar yr amodau canlynol o Erthygl 6:
  - Mae angen prosesu'r data er mwyn cydymffurfio â goblygiad cyfreithiol y mae'r rheolydd yn destun iddo (Erthygl 6C GDPR). (Cod Derbyn Statudol Derbyn i Ysgol, Llywodraeth Cymru)

- Mae angen prosesu'r data i wneud tasg sy'n cael ei wneud er budd y cyhoedd neu yn rhinwedd awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolydd (Erthygl 6e GDPR)
  - Mewn achosion lle mae'r cyngor yn casglu data ar gategoriâu arbennig megis gwybodaeth feddygol neu iechyd, er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion dysgwyr wrth ddyrannu lle mewn ysgol, rydym yn dibynnu ar Erthygl 9 2(g) GDPR.
4. Bydd y cyngor yn cadw'r wybodaeth a gasglwyd gennych ar y ffurflen hon am gyfnod o 25 mlynedd o'r dyddiad geni;
  5. Sylwch fod rhaid i ni gasglu data personol penodol dan ofynion statudol ac yn hynny o beth, pe byddech yn methu rhoi'r wybodaeth honno i ni, fe allai olygu na fydd y cyngor yn gallu darparu gwasanaeth i chi a / neu'n golygu eich bod chi'n agored i gamau cyfreithiol;
  6. Dan Erthygl 21 y GDPR, mae gennych chi hawl unrhyw bryd i wrthwynebu'r Awdurdod o ran y ffaith ein bod ni'n prosesu eich data personol er mwyn gwneud tasg gyhoeddus neu yn rhinwedd ein hawdurdod swyddogol;
  7. Ni fydd y cyngor yn trosglwyddo unrhyw ddata personol tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Bydd unrhyw ddata personol sy'n cael ei brosesu gan yr Awdurdod yn y Deyrnas Unedig neu un o wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd.
  8. Ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio eich data personol at ddiben gwneud penderfyniadau awtomataidd.
  9. Dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae gan unigolion yr hawliau canlynol o ran eu data personol:
    - yr hawl i weld eu data personol sydd gan y Rheolydd Data
    - yr hawl i gywiro unrhyw ddata anghywir sydd gan y Rheolydd Data
    - yr hawl i ddileu eu data (mewn rhai amgylchiadau prin)
    - yr hawl i gyfyngu ar achosion o brosesu eu data gan y Rheolydd Data (mewn rhai amgylchiadau prin)
    - yr hawl i wrthwynebu i ddefnyddio eu data am resymau marchnata uniongyrchol.
    - yr hawl o ran cludadwyedd data (h.y. trosglwyddo'n electronig i reolydd data arall).
- Am ragor o wybodaeth ar yr hawliau uchod, ewch i wefan y Comisiynydd Gwybodaeth – [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)
10. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar y defnydd o'ch data, neu eich bod am weld eich data neu am wneud cwyn am sut rydym yn prosesu eich data personol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data yn Neuadd Sir Powys, Llandrindod, LD1 5LG.
  11. Cofiwch, os ydych chi'n gwneud cais neu gŵyn i Swyddog Diogelu Data'r Cyngor a'ch bod chi'n anfodlon gydag ymateb y cyngor, mae gennych hawl i gwyno'n uniongyrchol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cewch fanylion cysylltu â swyddfa'r Comisiynydd a gwybodaeth bellach ar eich hawliau ar wefan y Comisiynydd – [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

Ticiwch i gadarnhau eich bod wedi darllen y datganiad hwn

## DATGANIAD

- Os ydw i wedi datgan dewis ar ôl y dyddiad cau, sef dydd Gwener 16 Tachwedd 2018, rwy'n deall efallai na fydd yn bosibl cynnig lle i'm plentyn / plant yn yr ysgol o'm dewis cyntaf.
- Rwy'n deall bod gennyf hawl i ddatgan dewis o ysgol i'r plentyn uchod ac os nad wyf yn datgan unrhyw dewis, efallai na fyddaf yn cael lle yn yr ysgol o'm dewis.
- Rwyf wedi darllen a deall y meini prawf a gyhoeddwyd ar dderbyn i ysgol.
- **Os bydd y disgybl yn mynd i ysgol sydd tu allan i dalgylch y cyfeiriad cartref, rwy'n deall y byddaf i'n gyfrifol am gludiant a'r holl gostau sy'n gysylltiedig â hynny, fel bod y disgybl yn gallu mynd i'r ysgol.**
- Rwy'n deall y gellir tynnu cynnig o le yn ôl wrthyf fi'n gyfreithlon os yw'r wybodaeth sydd ar y ffurflen hon yn dwyllodrus neu'n gamarweiniol ac y byddwn yn cymryd camau i gadarnhau y defnyddiwyd y cyfeiriad cywir.
- Rwy'n cadarnhau mai fi yw'r gwarcheidwad cyfreithlon sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y disgybl dan sylw, a bod y wybodaeth sydd ar y ffurflen gais hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Llofnod

Dyddiad

**Dychwelwch y ffurflen hon i:**

**Tim Derbyn, Gwasanaeth Ysgolion, Neuadd Sir Powys, Llandrindod, Powys, LD1 5LG**

Dyddiad derbyn

Er defnydd swyddogol yn unig

Nodiadau

Dyddiad rhoi ar y system